

## Adroddiad Adolygiad Arfer Plant

Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg

Adolygiad Arfer Plant Estynedig BLIDPCF 02/2014

### Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

*I'w cynnwys yma: -*

- *Amgylchiadau yn arwain at yr adolygiad*
- *Cyfnod a adolygwyd a pham*
- *Llinell amser cryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad*

### Cyd-destun Cyfreithiol:

Mae'r Adolygiad Arfer Plant Estynedig wedi ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Lleol Plant Caerdydd a'r Fro. Cyrhaeddwyd y meini prawf ar gyfer yr Adolygiad hwn dan adran 6.1 y Canllaw Trefniadau ar gyfer Adolygiadau Arfer Plant Aml-Asiantaeth (WG2103)

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad arfer plant estynedig mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, os gwyddys neu yr amheuir fod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso a bod y plentyn wedi:

- (a) marw; neu
- (b) wedi cael anaf sy'n peryglu bywyd; neu
- (c) wedi cael anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd neu ddatblygiad

a

Bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn blentyn a oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys person sy'n gadael gofal dan 18 mlwydd oed) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn:

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod
- y dyddiad y mae awdurdod lleol neu bartner perthnasol yn nodi bod y plentyn wedi dioddef anaf difrifol a pharhaol sy'n effeithio ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Mae meini prawf adolygiadau estynedig wedi eu nodi yn y rheoliadau diwygiedig, Rheoliadau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd 2012.

## Amgylchiadau yn Arwain at yr Adolygiad:

Comisiynwyd yr Adolygiad Arfer Plant Estynedig (AAPE) hwn yn dilyn argymhelliad gan Is Grŵp Adolygiad Arfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro. Mae'n ystyried amgylchiadau merch ifanc a oedd ac sy'n dal i fod yn destun Gorchymyn Gofal i'r Awdurdod Lleol ac sydd wedi ei rhoi mewn cartref gofal preswyl y tu allan i Gymru. Cyn hyn bu'n preswyl mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn ogystal â derbyn gofal mewn nifer o leoliadau maethu. Roedd yn agored i niwed mewn sawl modd: roedd yn destun datganiad anghenion addysgol; roedd ei hymddygiad yn anrhagweladwy gan ei gwneud hi'n agored i niwed gan ei bod yn aml yn diflannu o'i lleoliadau. Gallai fod yn heriol ac anghydweithredol ac nid oedd yn ymddangos bod ganddi gysylltiadau clos â'i chyfoedion ac fe'i hystyrid mewn llawer ffordd yn anaeddfed o ran ei hoed.

Mae ei brawd/chwaer iau hefyd yn destun Gorchymyn Gofal i'r Awdurdod Lleol ac am gyfnod buont mewn lleoliad maethu gyda'i gilydd. Ac eithrio ei chwaer iau, mae dau hanner brawd gan y plentyn, y ddau yn hŷn na hi. Nid yw ei chyswllt â'i theulu genedigol, yn enwedig ei rhieni, yn rheolaidd. Mae cyswllt clos rhyngddi â'i mam-gu ar ochr ei mam. Gall fod yn ddyfeisgar iawn ac at ei mam-gu y 'rhedodd i fwrdd' pan ddiflannodd o'i lleoliad yn Lloegr gan gymryd diwrnod ar un achlysur a deuddydd dro arall i gyrraedd cyfeiriad ei mam-gu.

Nodwedd o ymddygiad y person ifanc hwn trwy gydol cyfnod yr adolygiad oedd ei thuedd i 'ddiflannu/rhedeg i fwrdd' o'i lleoliadau. Ar rai adegau byddai'n dychwelyd i'w lleoliad o'i dewis ei hun, er yn aml byddai'r heddlu yn rhan o'r stori.

O ganlyniad uniongyrchol i'r perthnasoedd y caniatwyd iddi eu ffurfio â phobl ifanc eraill yn y cartref gofal diweddaraf, arweiniodd hyn iddi ddod yn agored i'w cham-drin yn rhywiol ac i gam-fanteisio arni. Canlyniad hynny oedd iddi ddioddef dau ymosodiad rhywiol ar wahân, gyda'r olaf o'r rhain yn dreisio a arweiniodd at orfod iddi fynd i'r ysbyty.

Roedd Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu eu prosesau tendro a gytunwyd wrth geisio dod o hyd i leoliad i'r plentyn. Roeddent wedi eu bodloni fod y cartref preswyl y lleolwyd y plentyn ynddi yn briodol i ateb ei holl anghenion. Yn dilyn yr ymosodiadau a ddioddefodd tra'n breswlydd yn y cartref, nid oedd rheswm gan Gwasanaethau Plant i feddwl nad oedd y cartref gofal ei hun yn lleoliad addas ar ei chyfer. Fodd bynnag, yn dilyn cyfathrebiad gan Heddlu yn Lloegr â Gwasanaethau Plant, lleision nhw eu pryderon am y lleoliad, gan egluro'r peryglon a oedd ynghlwm â dychwelyd y plentyn i'r cartref. Yn ystod y trafodaethau crybwyllodd yr heddlu os y gwneid penderfyniad i ddychwelyd y plentyn y byddent yn rhoi Grymoedd Diogelu'r Heddlu ar waith. Yn amlwg, gwrandaedd Gwasanaethau Plant ar y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr heddlu a'i asesu, parthed y peryglon a wynebai'r plentyn yn lleoliad y cartref gofal. Yn sgil y drafodaeth honno ynghyd â'r wybodaeth a gododd o'r ymosodiadau ar y plentyn, cwblhawyd asesiad risg pellach gan Gwasanaethau Plant. Yn dilyn yr asesiad hwnnw, penderfynodd Gwasanaethau Plant wneud cais am a buont yn llwyddiannus yn cael Gorchymyn Diogelu tri mis o hyd i roi'r plentyn mewn llety diogel er ei diogelwch hi ei hun.

Ers hynny mae hi wedi cael ei rhoi mewn cartref gofal preswyl yng Ngorllewin Cymru gyda thri o blant eraill, gan gynnwys ei chwaer iau. Mae wedi setlo lawr ac yn gwneud cynnydd, ac mae cyswllt rhyngddi â'i theulu.

Cododd yr Is Grŵp Adolygu Arfer Plant yr atgyfeiriad hwn am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2014. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, cysylltodd Cadeirydd yr is grŵp a'r BLIDP perthnasol yn Lloegr parthed yr atgyfeiriad.

Mewn cyfarfodydd dilynol roedd cynrychiolwyr wedi eu bodloni, oherwydd statws Plant yn Derbyn Gofal y plentyn fod meini prawf ar gyfer Adolygiad Estynedig ar y plentyn wedi eu cyrraedd. Cafwyd deialog pellach rhwng BLIDP Caerdydd a'r Fro a'r BLIDP perthnasol yn Lloegr ac erbyn y cyfarfod ar 17 Tachwedd 2014 nodwyd a derbyniwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n lleoli yw mynd i'r afael ag Adolygiad Arfer Plant oherwydd eu hatebolrwydd dros les y plentyn. Yn sgil hynny, ar yr un diwrnod penderfynwyd y byddai'r Is Grŵp Adolygiad Arfer Plant yn argymhell i BLIDP Caerdydd a'r Fro y dylid comisiynu arfer plant estynedig oherwydd yr ymwneud aml asiantaeth â'r plentyn. Mae asiantaethau perthnasol o'r rhanbarth yn Lloegr wedi ymgysylltu'n llawn â phroses yr AAP.

Yng nghyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Arfer Plant (PAAP) cytunwyd mai dwy flynedd fyddai cwmpas yr AAPE hwn yn arwain at y digwyddiad a daniodd yr adolygiad hwn h.y o 16 Hydref 2011 i 16 Hydref 2013, cydnabyddir y cafwyd oedi sylweddol cyn dechrau yr adolygiad hwn.

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad hwn i'w gweld yn Atodiad 1.

## Arfer a dysgu trefniadol

*Nodi pob pwylt dysgu unigol sy'n codi mewn achos (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) gydag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol*

### **Y Digwyddiadau Dysgu**

Nodwyd nifer o themâu trwy gyfrwng gwaith y Panel ac yn ystod y digwyddiad.

Mynychodd 13 o ymarferwyr y Digwyddiad Dysgu yn ogystal â Chadeirydd y Panel, dau adolygydd a Rheolwr Busnes y BLIDP. Gyda chaniatâd y mynychwyr fe recordiwyd y Digwyddiad Dysgu i alluogi'r Adolygwyr i sicrhau fod trafodaethau a phenderfyniadau yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn yr adroddiad hwn.

### **Mynychodd yr ymarferwyr canlynol.**

- 2 Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal
- 2 heddwes o Heddlu De Cymru
- Rheolwr Tîm y tîm Plant sy'n Derbyn Gofal 14+
- Rheolwr Tîm Gwasanaethau Plant
- Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn
- 3 Cynrychiolydd o Addysg
- 2 heddwes o'r Llu Heddlu perthnasol yn Lloegr
- Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol yn Lloegr

### **Barn y person ifanc**

Cyfarfu'r adolygwyr â'r person ifanc yn ei lleoliad presennol mewn cartref preswyl yng Nghymru cyn y Digwyddiad Dysgu i geisio ei barn ar y gwasanaethau a roddwyd iddi.

Gwelwyd y plentyn yn y lolfa. Eisteddodd fel pelen mewn cadair freichiau ond daliodd sylw â'i llygaid.

Dywedodd wrth yr adolygwyr:

Ei bod yn grac oherwydd y nifer troeon iddi gael ei symud er ei bod yn deall fod hynny er mwyn ei chadw'n ddiogel a doedd fawr o bwys ganddi fod cyn belled i ffwrdd o'i chartref. Roedd hi'n hapus ei bod hi nawr mewn lleoliad gyda'i chwaer, oherwydd pan y'i rhoddwyd yn rhywle arall roedd yn gweld ei heisiau a ddim yn cael ei gweld na ffonio ei mam-gu.

Dangosodd ddealltwriaeth o'i hymddygiad anaddas a dywedodd iddi gael ei thrin yn dda pan oedd yng ngofal yr heddlu.

Dywedodd wrthym ei bod yn grac pan y cafodd ei lleoli y tu allan i'r ardal nad oedd ei gweithiwr cymdeithasol fyth ar gael i siarad a hi nac i ymweld â hi, a'i bod am weld

mwy ar ei theulu. Siaradodd yn gadarnhaol iawn am ei gweithiwr cymdeithasol presennol.

Cyfarfu'r adolygwyr hefyd â'r fam-gu ar ochr y fam yn ei chartref cyn y Digwyddiad dysgu i geisio ei barn ar y gwasanaethau a roddwyd i'w hwyres:

Tybiai ei bod yn anghywir i'w hwyresau gael eu gwahanu tra mewn gofal maeth ac ystyriai nad oedd er eu lles gorau i wneud hynny. Roedd hi wedi ei thramgwyddo unwaith i'w hwyres gael ei rhoi y tu hwnt i'r ardal na welodd hi fyth mohoni, doedd hi ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd, ni chysylltodd gweithwyr proffesiynol â hi a dim ond pan redodd y plentyn i ffwrdd y gwnaed y teulu yn ymwybodol o'r 'problemau cam-fanteisio rhywiol'.

Roedd cadw cysylltiad â'i hwyrion yn creu straen oherwydd ei fod dan arolygaeth ac ni ddwedwyd wrthi y byddai hyn yn digwydd. Nododd na fu cyswllt rhwng ei hwyresau â'r teulu estynedig (cefn dryd, ayb) gan ddweud na wyddent pwy oedd eu teulu.

Cadarnhaodd y caiff yr holl ohebiaeth at fam y ferch ei yrru ymlaen i'w chyfeiriad hi (y fam-gu), ond nad yw yn derbyn gohebiaeth ei hun felly doedd hi fyth yn gwybod beth oedd yn digwydd gan nad oedd ei merch yn dweud rhyw lawer wrthi.

### **Yn ystod trafodaethau ar y llinell amser nododd yr Ymarferwyr y canlynol:**

- Roedd amrywiaeth yn y lefel o wybodaeth parthed nifer yr adegau y bu'r heddlu ynghlwm oherwydd i'r plentyn fynd ar goll, ayb.
- Ymddangosai'r Ysgol (Caerdydd) fel ardal o sefydlogrwydd.
- Roedd ymddygiad y person ifanc yn yr ysgol yn anghyson, weithiau yn cydymffurfio, dro arall ddim. Gallai fod yn oriog.
- Roedd ei hymddangosiad personol yn bwysig iawn iddi ond nid wastad yn briodol i'w hoed.
- Ystyriwyd bod y Baromedr pryder ar 'canolig i uchel'.
- Yn yr ysgol treuliodd gryn dipyn o amser yn y 'Dosbarth Anogaeth'.
- Nid oedd yn ateb y meini prawf ar gyfer y gwasanaethau dwys a ddarparwyd gan GIMPG - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (therapiwtig), roedd yr hyn oedd ei hangen arni yn wasanaeth therapiwtig nad oedd GIMPG yn ei chynnig. Nodwyd y bu Nyrs GIMPG o'r blaen a fyddai wedi gallu cynnig y gwasanaeth angenrheidiol ond daeth y gwasanaeth hwnnw i ben pan unodd y ddau Awdurdod Lleol. Nododd ymarferwyr fod yn eu tyb hwy, nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal sydd ag angen gwasanaeth nad sydd ar gael mwyach. Barn yr ymarferwyr hefyd oedd mai yn aml y gofalwr sydd ag angen y cymorth i reoli plant ag ymddygiadau anodd ac eto nad yw hyn ar gael mwyach.
- Cafodd y gwahanu oddi wrth ei chwaer effaith fawr arni, er y credai'r chwaer ei bod yn cael ei dal yn ôl gan y plentyn ar y mynegai.
- Teimlai'r ymarferwyr fod cyflwyno ffôn symudol i'r plentyn penodol hwn ar yr adeg honno wedi bod yn benderfyniad annoeth oherwydd yn sydyn roedd 'llawer o ffrindiau' ganddi.

- Cynyddodd y pryderon o fis Ionawr 2013 ymlaen pan 'ymddieithriodd' y person ifanc yn sylweddol.
- Nid yw'r ddyletswydd gyfreithiol i ddod o hyd i le ysgol i blentyn o hyd yn rhwydd yn enwedig gyda rhai a leolir y tu allan i'r sir.
- Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol nad ydyn t o hyd yn cael eu hysbysu pan gaiff plentyn ei symud allan o'r sir.
- Ychydig o ddealltwriaeth oedd o'r broses dendro ar gyfer Lleoliadau Allan o'r Sir gan asiantaethau partner ac eithrio'r Awdurdod Lleol.
- Pryderon ynghylch ansawdd y wybodaeth a drosglwyddir yn ymwneud ag iechyd pan yw'r plentyn yn symud gan nad yw Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal yn gwneud hyn eu hunain.
- Os nad yw'r plentyn yn cael ei ddatgan gall oedi ddigwydd cyn rhannu gwybodaeth
- Diffyg proses hysbysu Cymru gyfan ar gyfer trosglwyddo plant allan o'r sir, gyda'r heddlu yn ymwybodol o'r Lleoliad 1af Allan o'r Sir ond nid yr 2il sy'n cael effaith ar y rhannu gwybodaeth.
- Codwyd mater symud plentyn o un ardal lle ceir darpariaeth gwasanaeth i ardal arall lle nad oes ddarpariaeth h.y. Gwasanaeth Lindys
- Diffyg eglurder rhwng yr hyn sydd yn ffaith, sylw, honiad a barn
- Trin y problemau sydd ar yr wyneb ond heb fynd i wraidd achos plentyn yn mynd ar goll, mae'n bosib y gallai hyn fod yn briodol i berson annibynnol fynd i'r afael ag ef. Nododd ymarferwyr y byddai wedi bod yn fuddiol cael proses ar gyfer 'ôl-drafod pobl ar goll'. Mae'r canllaw statudol ar blant sy'n mynd ar goll o'u cartrefi (s.9 Deddf Awdurdod Lleol 1970 paragraff 69 a'r siart-lif ddaw gydag ef yn gosod rhwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i gynnig cyfweiliad dychwelyd annibynnol. Tra bod hyn yn berthnasol yn Lloegr nid ymddengys fod pethau yr un fath yng Nghymru. Nid yw'r Protocol Cymru Gyfan ar Blant sydd ar goll Paragraff 6.4 mor rhagnodol ac fe ddywed y dylai'r cyfwelydd fod yn heddwes, gweithiwr cymdeithasol, athro neu berson annibynnol. Gall hyn fod yn ddryslyd a rhaid i bob asiantaeth fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hynny.
- Taniodd Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal SERAF (Sgôr 36).
- Roedd dryswch rhwng yr asiantaethau parthed a gafwyd cyfarfod strategaeth CRhB ai peidio.
- Diffyg ymwneud teulu mewn Adolygiadau Plant sy'n Deryn Gofal.
- Newidiodd y plentyn leoliad bedwar gwaith mewn cyfnod byr o amser.
- Ystyriwyd fod y lleoliad allan o ardal yn leoliad priodol wedi adroddiad Ofsted da, er, o bersbectif yr heddlu roedd nifer y bobl ifanc a oedd yn mynd ar goll o'u lleoliadau yn anarferol o uchel ac ni aethpwyd i'r afael â SERAF yno. (ON: Er bod y ddarpariaeth yma yn parhau yn agored, nid yw'n arbenigo mwyach fel lleoliad ar gyfer plant sy'n wynebu camfanteisio rhywiol arnynt)
- Mae angen llwybrau cyfathrebu eglur a dealladwy.
- Mynegodd gweithwyr proffesiynol eu pryderon ynghylch bod oedolion priodol ar gael i rai iau yn y ddalfa (yn enwedig allan o oriau).

#### **Arfer cydweithio rhyng-asiantaeth effeithiol**

- Roedd cysylltiadau priodol rhwng gofalcwyr maeth a'r tîm gofal bugeiliol
- Roedd eu hanawsterau dysgu wedi eu cydnabod yn eang ac fe gynigiwyd cymorth priodol.

- Nododd yr heddlu o Loegr bod cydlynedd person ar goll ganddyn nhw felly pan fo plentyn yn cael ei osod sy'n peri pryder o ran hanes o fynd ar goll mae yna berson cyswllt sy'n ddolen ganolog.
- Cafwyd cyfathrebu effeithiol rhwng Lluoedd yn ogystal ag asiantaethau o ran yr adeg yr adroddwyd bod y plentyn ar goll ac yn sgil y cyfathrebu hwnnw yn ogystal â'r systemau cudd wybodaeth effeithiol, daethpwyd o hyd i'r plentyn mewn dim o dro.
- Er nad oedd rhannu'r chwirydd efallai yn yr achos hwn y trywydd gorau i'w ddilyn, roedd tystiolaeth amlwg o ymgynghori helaeth rhwng cynrychiolwyr o bob asiantaeth er mwyn sicrhau fod y penderfyniad yn un gwybodus ac y byddai'n gadarn yn wyneb craffu wedi ystyried yr effaith y byddai yn ei gael ar y ddau blentyn.
- Ceir tystiolaeth o'r datgeliad cyntaf am yr honiad o dreisio o ymchwiliad cadarn a thrylwyr lle atebwyd anghenion y plentyn â gweithdrefnau effeithiol y glynwyd wrthynt yn ogystal a chyfathrebu effeithiol rhwng y tri llu heddlu a chwaraeodd ran a arweiniodd at arestio'r tramgwyddwr yn effeithiol a buan.
- Y cyfathrebu effeithiol rhwng yr Heddlu o Loegr a Gwasanaethau Plant Caerdydd parthed y llety yn Lloegr heb fod yn lleoliad addas ar gyfer y plentyn. Roedd yr heddlu yn yr ardal honno mor bryderus am y lleoliad fel eu bod wedi cadarnhau y byddent yn rhoi Grymoedd Diogelu'r Heddlu ar waith parthed y plentyn pe byddai'n cael ei dychwelyd yno. Gwrandawodd Gwasanaethau Plant ac asesu risg y sefyllfa gyfan ac yn sgil hynny cafwyd Gorchymyn Gofal Diogelu er mwyn galluogi'r plentyn i gael ei roi mewn llety diogel a thrwy hynny sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Pan osodwyd y plentyn mewn lleoliad allan o'r sir yn ardal Heddlu De Cymru roedd prawf o gyfathrebu da a rhannu wybodaeth rhwng cydlynedd Person Ar goll heddlu De Cymru a swyddogion heddlu De Cymru yn ardal y lleoliad sy'n profi gyhyd a bod asiantaethau yn gwybod am lleoliadau gellir rhoi mesurau priodol ar waith er mwyn ymateb yn briodol. Gwelwyd prawf o hyn yn y troeon yr aeth ar goll.

### **Gwella Systemau ac Arfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer y BLIDP a'i asiantaethau aelod gan ragweld canlyniadau gwella:-*

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu cymerodd yr ymarferwyr ran mewn modd agored a rhagweithiol. Nodwyd sawl pwynt dysgu sydd wedi arwain at nodi'r camau gweithredu canlynol. Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau dysgu hyn yn ymwneud â phwysigrwydd rhannu wybodaeth briodol yn amserol. Mae angen ei nodi, mae rhannu wybodaeth wedi ei nodi yn aml iawn fel methiant mewn amrywiol adolygiadau yn y broses Adolygu Achosion Dirifol dros y ddau ddegawd diwethaf.

**Deall y broses dendro ar gyfer Lleoliadau Allan o'r Sir ac a oes dewis/gwneud y dewis cywir**

Roedd diffyg dealltwriaeth ar draws yr asiantaethau yn y mater hwn ac fe nododd yr Awdurdod Lleol pan fo lleoliad allan o'r sir yn cael ei roi allan i dendr efallai mai dim ond un lleoliad sy'n tendro yn hytrach na bod dewis ar gael.

Cafodd ei nodi parthed y lleoliad preswyl yr oed dy plentyn hwn wedi ei gael yn lleol yma yng Nghymru a thu allan i'r sir, nid oedd yr un ohonynt wedi eu cynrychioli yn y Digwyddiad Dysgu a hynny am nad ydynt yn bodoli mwyach. Nodwyd hefyd mai busnesau preifat yw'r rhain yn amlach na pheidio. Mae'n hanfodol fod y gwasanaethau a ddarperir wrth edrych am leoliadau i blant yn ateb anghenion y plentyn. Roedd angen lleoliad therapiwtig ar y plentyn ond nid lleoliad o'r fath oedd y lleoliad allan o'r sir er iddo honni ei fod gan fod mynediad at therapydd peripatetig ganddynt. Nodwyd bod yr Awdurdod Lleol wedi mynd i'r afael ag Adolygiad o'r sefydliad hwn.

Cyn bod plentyn yn cael ei osod, dylid cael trafodaethau cyn-lleoli aml-asiantaeth gyda'r ardal honno. Nodwyd na fyddai gwasanaethau plant fel mater o arfer yn siarad â heddlu yn yr ardal dderbyn, awgrymwyd y dylai hyn fod yn rhan o'r broses gan fod yr Heddlu lle lleolwyd y plentyn yn gwybod faint o blant a oedd yn mynd ar goll o'r cartref preswyl hwnnw. Pe byddai hyn yn wybyddus yng Nghaerdydd mae'n debygol na fyddai'r plentyn wedi ei osod yno.

### **Rhannu gwybodaeth am blentyn sydd wedi bod a hanes o 'fynd ar goll'.**

Roedd y plentyn ifanc hwn wedi bod â hanes o fynd ar goll pan oedd yn preswyllo yn ardal Caerdydd a'r fro, a phan gaiff plentyn o'r fath ei lleoli allan o'r sir mae'n hanfodol fod yr ymddygiadau hyn yn cael eu rhoi er sylw'r ardal sy'n derbyn.

### **Adolygu rôl y cydlynnydd person coll**

Dylid ystyried adolygu rolau a chyfrifoldebau'r pedwar Cydlynnydd Pobl Coll ledled Heddlu De Cymru ac argymhellir bod hyn yn cael ei wneud drwy drafod â'r llw Heddlu dan sylw yn Lloegr, Heddluoedd eraill yng Nghymru a Choleg Cenedlaethol yr Heddlu er mwyn sicrhau dull mwy corfforaethol a bod â dealltwriaeth am y lefelau gwahanol o ymyriadau/prosesau yn y meysydd perthnasol.

### **Pwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth mewn modd effeithiol pan fydd plentyn yn cael ei leoli y tu allan i'r ardal, ac os oes pryderon ynghylch bod yn agored i gamfanteisio rhywiol**

Daeth gweithdrefnau camfanteisio'n rhywiol ar blant i rym yng Nghymru tua diwedd 2012. Ond dywedodd y lleoliad a oedd yn derbyn nad oedd unrhyw wybodaeth ganddynt am Gaerdydd parthed pa mor agored i niwed oedd y person hwn. Dylid nodi fod y gweithdrefnau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn welliant ar y gweithdrefnau diogelu plant presennol.

Fodd bynnag fe yrrodd Awdurdod Lleol Caerdydd wybodaeth i'r Tim Rheoli Cartrefi Gofal Preswyl yn yr ardal dderbyn, ond nid i'r cartref ei hun a nododd broblem gyfathrebu rhwng y Tim Rheoli Cartrefi Gofal Preswyl a'r cartref. Yn ystod yr Adolygiad Plant yn Derbyn Gofal trafodwyd materion cyffredinol ond nid manylion penodol megis nifer y r hanesion o fynd ar goll pan oedd y plentyn ifanc yng Nghaerdydd. Dylid rhannu hanes o 'fynd ar goll' yn weithredol â'r ardal dderbyn. (Yn debyg i broses MAPPA – eto



pe cynhelid cyfarfodydd trosglwyddo aml-asiantaeth (MATMS) gellir datgelu ymddygiadau o'r fath.

### **Y pwysigrwydd o ddilyn i fyny gydag asesiadau pan fo pryderon wedi'u codi ynghylch y posibilrwydd o gamfanteisio (rhywiol).**

Nododd y llinell amser sawl achlysur lle cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol at eu pryderon bod y ferch ifanc hon yn agored i gamfanteisio'n rhywiol arni eto nid arweiniodd y rhain at asesiad llawn o'r perygl nac unrhyw gynllun gweithredu i fynd i'r afal â'r peryglon.

### **Asesu'r risgiau ynghlwm wrth roi ffôn symudol i berson ifanc sy'n agored i niwed**

Rhodddwyd i'r person ifanc yma, yr oedd ei hymddygiadau agored i niwed yn wybyddus, ffôn symudol fel 'anrheg/gwobr'. Dylid fod wedi trafod hyn gyda'i gweithiwr allweddol a'r risg ei asesu'n gywir.

### **Rhoi gwybodaeth addas i aelodau'r teulu sy'n bwysig i'r plentyn am gynlluniau pan nad oes cyfrifoldebau rhianta ganddynt**

Roedd mam-gu ar ochr y fam y plentyn hwn yn ffigwr o bwys i'r ferch ifanc hon, ac fel y nodwyd yn gynharach, y person y rhedodd y ferch ati ar ddau achlysur o'i lleoliad allan o'r ardal. Fe'i gwnaed yn glir yn ystod y trafod\aethau gafodd yr adolygwyr â'r fam-gu nad oedd hi'n deall y rhesymeg dros gyswllt dan oruchwyliaeth nac unrhyw ddealltwriaeth wirioneddol o'r Cynllun Gofal nac ychwaith pam fod y plentyn yn destun Gorchymyn Gofal. Pan archwiliwyd hyn yn ystod y Digwyddiad Dysgu y rheswm a roddwyd dros hyn oedd am nad oedd cyfrifoldeb rhiant gan y fam-gu er ei fod wedi ei gydnabod ei bod hi yn berson arwyddocaol ym mywyd y plentyn. Nodwyd hefyd nad oedd mam y plentyn o hyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a oedd wedi eu galw i drafod ei phlentyn. Felly roedd hi'n annhebygol y byddai'n hysbysu'r fam-gu o sefyllfa'r plentyn. Wrth weithio gydag aelodau teuluoedd sy'n anodd ymgysylltu â hwy, mae'n bwysig bod cytundebau yn eu lle er mwyn galluogi gwybodaeth briodol i gael ei rannu gydag aelodau teulu arwyddocaol.

### **Yr angen i gymryd agwedd holistaidd wrth ystyried newid lleoliad.**

Rhaid trafod yr oblygiadau pob asiantaeth wrth ystyried lleoliadau allan o'r sir. Yn benodol mae anghenion addysgol y plentyn yn hanfodol bwysig ac mae wedi ei danlinellu nad yw'r ddyletswydd gyfreithiol i ddod o hyd i le ysgol i blentyn o hyd yn hawdd mewn gwirionedd. Mae angen ymgysylltu Addysg yn y broses benderfynu yn ymwneud a lleoliadau tu allan i'r sir er mwyn sicrhau fod darpariaeth briodol at gael i'r plentyn ac i alluogi pontio esmwyth i fynd rhagddo.

### **Dylai Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal gael eu hysbysu rhag blaen er mwyn gallu cydymffurfio ag arfer da a rhannu gwybodaeth yn ymwneud a lleoliadau allan o'r ardal.**

Nid oes Proses Hysbysu Cymru Gyfan ar gyfer trosglwyddo nodiadau a neu wybodaeth ac o ganlyniad mae'r ddyletswydd ar Gwasanaethau Plant i hysbysu'r Nyrs Plant sy'n Derbyn gofal o'r penderfyniadau yn ymwneud â newid o ran lleoliad. Byddai

hyn yn galluogi'r Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal i hysbysu ei chydweithwyr yn yr ardal osod yn effeithiol, yn ogystal a throsglwyddo nodiadau. Digwyddodd hyn pan symudodd y plentyn i'r lleoliad yn Ne Cymru oherwydd y cyfathrebu effeithiol ond methodd hyn pan symudodd i'r lleoliad yn Lloegr.

## **Llais y Plentyn**

Mae'n bwysig pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud parthed lleoliadau a'r cymorth a'r gofal am blentyn y ceir dogfennaeth glir yn brawf bod eu barn nhw eu hunain a'u pryderon wedi eu hystyried ac yr aed i'r afael â nhw.

## **Cyfarfodydd Ôl-friffio annibynnol parthed plant sy'n mynd ar goll ac sy'n cael eu hadnabod fel eu bod nhw'n agored i GRhB.**

Ceir tystiolaeth o'r achos hwn ac o adolygiadau blaenorol nad yw llawer o blant yn ymgysylltu â'r heddlu yn dilyn cyfnodau o fynd ar goll ac yn sgil hynny fe all fod cyfleoedd yn cael eu colli ar gyfer casglu gwybodaeth effeithiol er mwyn amddiffyn y plentyn a dod o hyd i dramgwyddwyr y CRhB. Mae yna angen clir i'r math hwn o wasanaeth gael ei roi ar waith er mwyn sefydlu a fydd yn gwella y diogelu sydd yn ymwneud a phlant.

## **Defnyddio technoleg y 21ain ganrif**

Mae wedi ei awgrymu y gellid fod wedi gwella ar y cyfathrebu pe gwnaed mwy o ddefnydd o'r dechnoleg sydd ar gael megis galwadau Skype/cynadledau fideo, gan fod cyfathrebu wyneb yn wyneb yn gallu bod yn fwy effeithiol nag e-byst a galwadau ffôn.

## **Adolygu'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer atgyfeiriadau Lleoliadau Allan o'r Sir.**

Nododd y Digwyddiad Dysgu fod angen i Awdurdodau Lleol i gael pwynt cyswllt unigol ar gyfer atgyfeirio a derbyn gwybodaeth yn ymwneud a Lleoliadau y tu Allan i'r Sir ynghyd a chyfrifoldeb dros gydnabod derbyn y cyfryw wybodaeth. Byddai hyn yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac effeithiol i'r plentyn. Byddai hyn hefydd yn gwella gallu'r asiantaethau partner i gyrchu gwybodaeth pe byddai pryder yn codi ynghylch plentyn a leolwyd allan o'r sir. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cadarnhau wrth yr adolygwyr bod proses wedi bod ar waith ers 2007, ac mae swyddogaeth weinyddol yn unig sydd iddi. Nododd yr adolygiad fod angen i ymarferwyr yn ymwneud â gofalu am blentyn fod yn ymwybodol o'r broses honno a pha wybodaeth a rennir, er mwyn eu galluogi nhw i asesu'n effeithiol yr anghenion parhaus a'r perygl i'r plentyn a oedd yn absennol o'r achos.




## **Cryfhau dulliau i gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau.**

Nodwyd fod y ferch ifanc hon wedi cael nifer o leoliadau maeth ar draws De Cymru cyn cael ei throsglwyddo allan o'r ardal. Bob tro iddi gael ei symud roedd hynny oherwydd bod ei hymddygiad yn anodd i'r gofalgwyr ei reoli ac o dro i dro wedi symud byddai'r plentyn yn penderfynu os oedd am fynd yn ôl i'w lleoliad blaenorol. Nid oedd nifer y lleoliadau gwahanol am arwain at fudd gorau'r plentyn. Mae yna angen am

gynllunio priodol ac effeithiol wrth ymwneud â phlentyn. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i archwilio'r angen am gymorth ychwanegol i alluogi'r lleoliadau presennol i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn hytrach na datrys y broblem drwy symud y plentyn.

### **Adolygu Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant Coll**

Nid yw Protocol Cymru Gyfan ar Gyfer Plant Coll yn rhagnodol ynghylch cyfrifoldeb pwy yw hi i sicrhau fod plentyn sy'n mynd ar goll yn cael ei gyfweld a neu gynnig cyfweliad annibynnol iddo yn dilyn eu ddychweliad yn wahanol i'r weithdrefn yn Lloegr. Gall hyn arwain at ddryswch yn enwedig gyda'r problemau traws-ffiniol sy'n codi gyda phlant coll. Rhaid mynd i'r afael â hyn mewn unrhyw adolygiad dilynol ar y gweithdrefnau oherwydd fel arall bydd pawb yn tybio bod rhywun arall yn ei wneud.

<b>Datganiad gan yr Adolygwr/wyr</b>	
<p><b>ADOLYGWR 1</b></p> <p>Daphne Rose Nyr Ddynodedig Diogelu a Phlant sy'n Derbyn Gofal y Gwasanaeth Diogelu Plant Iechyd Cyhoeddus Cymru,</p>	<p><b>ADOLYGWR 2</b></p> <p>Susan Hurley Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed Heddlu De Cymru</p>
<p><b>Datganiad o annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i></p>	<p><b>Datganiad o annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad Cymhwyster Sicrwydd Ansawdd</i></p>
<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>• Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol.</li> <li>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl</li> </ul>	<p>Rwy'n gwneud y datganiad canlynol cyn fy ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf wedi bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>• Nid wyf wedi rheoli'r ymarferydd/wyr cysylltiedig yn uniongyrchol.</li> <li>• Mae'r cymwysterau cydnabyddedig priodol gennyf, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn fanwl ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl</li> </ul>
<p><b>Adolygwr 1</b> (Llofnod)</p> <p style="text-align: center;">.....  .....</p>	<p><b>Adolygwr 2</b> (Llofnod) S. Hurley</p> <p style="text-align: center;"></p>
<p>Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod) <b>Enw</b> (Llythrennau breision)</p>	<p> Peter Greenhill</p>
<p><b>Dyddiad</b></p>	<p>16.03.2015</p>

## Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Plentyn Mynegiannol

Ganed 1999

### Tasgau Penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllaw ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen ar gyfer yr adolygiad gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at unrhyw wybodaeth gefndir arwyddocaol neu ddigwyddiad blaenorol.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad na nodwyd eisoes gan yr Is-grŵp Adolygu Arfer Plant, creu amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau brys sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Mae'r Panel wedi penderfynu mai'r asiantaethau priodol i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn ac felly i gyfrannu fel aelodau o'r panel adolygu yw:
- Creu llinell amser, dadansoddiad cychwynnol a hypothesis unol.
- Cynllunio gyda'r adolygwr/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth. Yn seiliedig ar amserlen y Panel ar gyfer cwblhau'r adolygiad bydd y Digwyddiad Dysgu yn cael ei drefnu ar gyfer 9 Gorffennaf 2015.
- Cynllunio gyda'r Adolygwyr y trefniadau cyswllt gyda'r plentyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad. Ceisir cyngor o ran sut i ymgysylltu â'r teulu / teulu biolegol yn unol â'r adolygiad ac unrhyw aelodau teulu perthnasol.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu arfer plant drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i ddiwallu, yr hypothesis cychwynnol wedi'i ateb ac unrhyw ddysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant a'r BRhDP i'w hystyried a chytuno arnynt. Cynigir bod yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2015 ac yng nghyfarfod y BRhDP ar gyfer 30 Medi 2015). Cynigir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gymeradwyo erbyn diwedd Medi 2015 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2015 o leiaf 15 diwrnod cyn ei gyhoeddi.
- Yn dilyn derbyn Adroddiad Adolygu Arfer Plant Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru, bydd yr Adolygwyr yn gwneud trefniadau gyda'r plentyn a'r teulu i rannu'r adroddiad â nhw cyn ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd.

## **Cwmpas yr Adolygiad:**

Yng nghyfarfod cyntaf y Panel cytunwyd mai dyddiad dechrau cwmpas yr adolygiad fyddai 16 Hydref 2011 – 16 Hydref 2013. Comisiynodd y Panel y canlynol:

Cadeirydd y Panel: - Peter Greenhill  
Adolygwr Allanol - Daphne Rose  
Adolygwr Mewnol: - Susan Hurley

## **Aelodau Panel:**

### **Asiantaethau Partner BLIDP Caerdydd a Bro Morgannwg**

Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Gwasanaethau Plant: Awdurdod Lleol Caerdydd  
Awdurdod Lleol Bro Morgannwg  
Gwasanaethau Addysg: Awdurdod Lleol Caerdydd  
Awdurdod Lleol Bro Morgannwg  
Heddlu De Cymru

### **Asiantaethau Partner BLDIP rhanbarth Lloegr:**

BLIDP  
Gofal Cymdeithasol  
Yr Heddlu  
Sefydliad Ymddiriedolaeth y GIG  
Dysgu a Chyflawniad

## **Tasgau Craidd**

- Pennu p'un a yw penderfyniadau a chymau yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau a enwir a'r BLIDP.
- Archwilio gweithio rhwng-asiantaethau a'r ddarpariaeth gwasanaeth i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chymau yn canolbwyntio ar y plentyn.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau teulu priodol a rhoi gwybod iddynt am brif agweddau cynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

## **Hefyd, fel adolygiad estynedig, bydd y Panel yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:**

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am y plentyn a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac wedi'i ystyried yn asesiad, cynllunio a phenderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r plant, eu teulu a'u hamgylchiadau? Sut gyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- A oedd y cynllun amddiffyn plant/cynllun plentyn yn derbyn gofal ar gyfer y plentyn yn gadarn a phriodol i'r plentyn a'i hamgylchiadau?
- A weithredwyd y cynllun ar gyfer y plentyn yn effeithiol, ei fonitro a'i adolygu? A gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol i ddatblygiad a chyflawni'r cynllun(iau) aml-asiantaeth?
- Pa agweddau ar y cynllun(iau) a weithiodd yn dda, beth na weithiodd cystal a pham? I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd parthed effeithiolrwydd y cynllun(iau), gan gynnwys y cynnydd yn erbyn y canlyniadau a gytunwyd ar gyfer y plentyn?
- A oedd yna rwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a ataliodd yr asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau? Dylai hyn roi ystyriaeth i faterion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill.

## **Tasgau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant**

- I ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu yn y cynllun gweithredu. Caiff hyn ei gynnal dim hwyrach na'r cyfarfod BLIDP a drefnwyd ar gyfer 30 Medi 2015.
- I yrru'r Adroddiad Terfynol a'r Cynllun gweithredu Terfynol i'r asiantaethau perthnasol i dderbyn sylwadau terfynol cyn cytuno arno a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Hydref 2015.
- I gadarnhau trefniadau ar gyfer yr Is-Grŵp Adolygu Arfer Plant i reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, gan gynnwys sut y caiff gwelliannau a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- I gynllunio cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y BLIDP. Caiff y dyddiad cyhoeddi ei gadarnhau gan Gadeirydd Bwrdd y BLIDP.
- Cytuno ar y broses ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd y BLIDP fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus ac unrhyw ymateb i'r cyfryngau yn ymwneud â'r adroddiad hyd nes bydd y broses wedi ei chwblhau.

## Atodiad 2 Llinell Amser Cryno

### Atodiad 3: Proses Adolygu Arfer Plant

*I'w cynnwys yma yn gryno:*

- *Y broses a ddilynwyd gan y BLIDP a'r gwahanol wasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu;*
- *Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu a mynychodd y gwasanaethau hwnnw.*

*Hysbyswyd aelodau'r teulu, ceisiwyd eu barn ac fe gawsant eu cynrychioli drwy gydol y Digwyddiad Dysgu ac fe ddarparwyd adborth iddynt.*

Cyfarfu'r Panel ar 6 achlysur gyda phersonél perthnasol o'r rhanbarth dderbyn yn ymuno â'r Panel drwy ffôn gynadledda. Yn dilyn cyfarfod cyntaf y Panel fe gynhyrchwyd amserlenni cyfarfodydd gan yr asiantaethau a'u cyfuno.

Rhodddwyd cyfle i'r person ifanc a'i theulu gwrdd â'r Adolygwyr cyn y Digwyddiad Dysgu fel y gellid ystyried eu barn a'u teimladau am y modd y gweithiodd yr asiantaethau gyda nhw yn y Digwyddiad Dysgu. Cyfarfu'r Adolygwyr â Mam-gu y person ifanc yn ei chartref, a gyda'r person ifanc yn ei llety.

Mynychwyd y Digwyddiad Dysgu gan 15 o weithwyr proffesiynol a fu'n rhan o'r achos neu a weithiodd gyda'r person ifanc. Defnyddiwyd y llinell amser i hysbysu'r Digwyddiad Dysgu pryd y bu'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn ystyried pa mor effeithiol y bu'r gweithio rhyngasiantaethol. Fe ystyrion nhw os oedd angen newidiadau o ran arfer gwaith er mwyn amddiffyn plant yn well, neu i weld os y collwyd cyfleon i amddiffyn y plentyn ifanc rhag y cam-drin a ddiodefwyd ganddi. Roedd meddyliau, teimladau a barn y fam-gu ar ochr y fam, a rhai'r person ifanc a gafodd eu rhannu gyda'r adolygwyr yn werthfawr ac fe gawsant eu rhannu ar yr adegau priodol yn ystod y Digwyddiad Dysgu gan gyfrannu at y deilliannau dysgu.

Cynhyrchodd yr Adolygwyr adroddiad drafft a gafodd ei ystyried gan y Panel.

Argymhellwyd yr adroddiad terfynol i'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant ac fe gyflwynodd yr Adolygwyr yr Adroddiad i Fwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro ar y 30/09/15 lle roedd Cadeirydd BDP yr awdurdod derbyn yn bresennol.



**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth .....

Dyddiad gyrru llythyr cydnabod at Gadeirydd y BLIDP .....

Dyddiad dosbarthu i arolygiaethau/Arweinwyr polisi perthnasol

<b>Asiantaethau</b>	<b>Ie</b>	<b>Na</b>	<b>Rheswm</b>
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf EM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	